GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement

sands

# Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth

## Dogfen Ganllaw Ategol

**Gosod teuluoedd wrth galon gofal profedigaeth, ym mhob rhan o Gymru**

# Diben

Mae Llwybr Cenedlaethol ar Gyfer Gofal Mewn Profedigaeth (NBCP) wedi cael ei ddatblygu i wella gofal mewn profedigaeth ar ôl colli babi yn ystod beichiogrwydd neu farwolaeth babi.

Mae'r NBCP yn cael ei ddarparu ar y cyd â theuluoedd mewn profedigaeth, **Sands**, **Miscarriage UK**, **Ectopic Pregnancy Trust**, **Antenatal Results & Choices**, **Tŷ Hafan**, **2wish**, a staff y GIG ledled Cymru.

**Mae gwybodaeth am NBCP Cymru, gan gynnwys llwybrau, pecynnau adnoddau, padlets a phecynnau cymorth beichiogrwydd a cholli babi ar gael yma.**

# Terminoleg ac Iaith

Mae'r iaith sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a cholli babi yn bersonol a gall amrywio'n fawr rhwng teuluoedd. Dylai staff bob amser adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir ganddynt. Canllaw yn hytrach na gorchymyn yw'r derminoleg a ddefnyddir trwy gydol y llwybrau. Dylai sensitifrwydd, parch a dewisiadau unigol gael blaenoriaeth bob amser.

Er cysondeb o fewn y llwybr:

- Mae **staff** yn cyfeirio at yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am deuluoedd mewn profedigaeth, gan gynnwys staff clinigol, gweinyddol a chymorth.
- Mae **rhiant/rhieni** yn cyfeirio at bobl sydd wedi colli babi yn ystod beichiogrwydd neu sydd wedi colli babi, gan gydnabod na fydd pawb yn dymuno cael eu disgrifio fel hyn.
- Mae **gofalwr/gofalwyr** yn cyfeirio at y prif ofalwr, gan gynnwys pobl sydd â Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig neu Orchymyn Trefniadau Plentyn, gofalwyr maeth a'r Awdurdod Lleol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Mae **partner** yn cyfeirio at y person a nodwyd gan y fenyw neu'r person sy'n rhoi genedigaeth fel ei phrif gymorth, a all gynnwys partner, aelod o'r teulu neu ffrind.
- Mae **teulu**'n cyfeirio at y rheini a nodwyd gan y rhiant/rhieni fel rhan o'u rhwydwaith cymorth.
- Yng Nghymru, diffinnir **plentyn/plant** fel unrhyw berson hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed. Fodd bynnag, yng nghyd-destun NBCP, defnyddir hwn i gyfeirio at y rheini dros 12 mis oed.
- **Baban**: yn cyfeirio at blentyn o dan 12 mis oed.
- Defnyddir **babi** drwy gydol y llwybr, gan gydnabod y gallai fod yn well gan rai teuluoedd ddefnyddio geiriau amgen fel ffetws neu feichiogrwydd. Dylai staff ddilyn yr iaith a ddefnyddir gan y teulu.
- Mae **cofnod meddygol** yn cyfeirio at unrhyw gofnod papur neu ddigidol sy'n ymwneud â gofal unigolyn.
- Mae **cyswllt allweddol mewn profedigaeth** yn cyfeirio at y gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am gyd-drefnu gofal mewn profedigaeth a bod yn bwynt cyswllt cyson i'r teulu.
- Mae **cynllun gofal personol** yn cyfeirio at y cynllun ysgrifenedig a ddatblygwyd gyda'r teulu i adlewyrchu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol.

Mae'r iaith a ddefnyddir o fewn y llwybr yn dilyn canllawiau cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys argymhellion NICE. Pan ddefnyddir y termau menyw neu fenywod, maent yn cynnwys unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fenywod ond sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth. Dylai staff bob amser ddilyn y dewisiadau a fynegir gan y sawl sy'n derbyn gofal.

# Safonau Gofal mewn Profedigaeth

**Ystyrir bod Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth sy'n bodloni'r safonau hyn yn darparu gofal da mewn profedigaeth.**

| | |
|---|---|
| **1** | Mae cynllun gofal mewn profedigaeth ar waith ar gyfer teuluoedd, sy'n parchu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae'r cynllun yn ystyried dilyniant mewn gofal ac yn cefnogi pontio rhwng lleoliadau ac unrhyw feichiogrwydd dilynol. |
| **2** | Darperir hyfforddiant gofal mewn profedigaeth i'r holl staff, sy'n cael eu cefnogi gan eu Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth i gael mynediad at yr hyfforddiant hwn. |
| **3** | Mae'r holl rieni/gofalwyr sy'n galaru yn cael gwybod am gymorth emosiynol priodol ac yn cael eu hatgyfeirio, os gofynnir am hynny, i gael cymorth iechyd meddwl arbenigol pan fo angen. |
| **4** | Mae arweinydd profedigaeth penodedig ym mhob lleoliad gofal iechyd lle gall beichiogrwydd neu fabi gael ei golli. |
| **5** | Bydd gan bob rhiant/gofalwr sy'n galaru fynediad at ystafell brofedigaeth sy'n amgylchedd addas a sensitif i ddarparu gofal mewn profedigaeth. |
| **6** | Ceisir dewisiadau teuluoedd mewn profedigaeth, a chefnogir yr holl rieni/gofalwyr mewn profedigaeth i wneud dewisiadau gwybodus am yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal nhw ac am ofal eu babanod. Dylai'r staff gael eu harwain gan eu dymuniadau. |
| **7** | Mae'r holl rieni/gofalwyr sy'n galaru yn cael cynnig y cyfle a'r cymorth i gydnabod ac anrhydeddu eu colled ac i greu atgofion parhaol yn unol â'u dymuniadau. |
| **8** | Mae system ar waith i ddangos yn glir i'r holl staff gofal iechyd, mewn modd amserol, bod rhiant/gofalwr wedi cael profedigaeth er mwyn sicrhau dilyniant mewn gofal. |
| **9** | Mae'r holl staff gofal iechyd yn cael cymorth ac adnoddau i ddarparu gofal mewn profedigaeth o ansawdd uchel, ac yn gallu cael gafael arnynt. |
| **10** | Dylid rhoi cyfle i deuluoedd mewn profedigaeth roi adborth i Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, a dylid ymgorffori hyn mewn prosesau adolygu i wella'r dysgu o golli beichiogrwydd a marwolaeth babi. |

# Cyfathrebu

**Rhaid i'r cyfathrebu â theuluoedd sydd wedi colli babi yn ystod beichiogrwydd neu farwolaeth babi fod yn glir, yn dosturiol, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion unigol. Gall teuluoedd fod mewn sioc, yn profi galar difrifol, neu'n cael trafferth prosesu gwybodaeth. Dylai staff gyfathrebu'n bwyllog ac yn glir, gan ddarparu gwybodaeth ar gyflymder y gall teuluoedd ei amsugno ac ailedrych arni pan fo angen.**

Mae cyfathrebu'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn dosturiol. Mae'r egwyddorion hyn yn llywio pob rhyngweithiad yn ystod y profiad o golli babi yn ystod beichiogrwydd neu farwolaeth babi, ac yn adlewyrchu'r hawliau, y gwerthoedd a'r safonau sy'n sail i ofal yng Nghymru, gan gynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma, anghenion o ran y Gymraeg, a mynediad cyfartal i bob teulu.

Dylid cyflwyno gwybodaeth mewn tameidiau hawdd eu deall a'i hategu â deunyddiau ysgrifenedig neu hygyrch lle bo hynny'n briodol, gan gydnabod efallai na fydd teuluoedd yn cofio gwybodaeth yn ystod cyfnodau o drallod.

## Cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Dylai'r gofal ddilyn anghenion, hoffterau a chyflymder y teulu. Mae'r staff yn gwrando'n astud, yn defnyddio iaith a therminoleg ddewisol y teulu, ac yn addasu dulliau cyfathrebu mewn ymateb i effaith emosiynol a gwybyddol trawma, galar a sioc. Rhoddir amser, lle a gwybodaeth glir i deuluoedd i gefnogi dealltwriaeth a dewisiadau gwybodus.

### Mae cyfathrebu'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan fydd staff:

- Yn dilyn cyflymder y teulu a chynnig amser, tawelwch a lle heb ruthro.
- Yn cydnabod yn glir ac yn dosturiol beth sydd wedi digwydd, gan ddefnyddio enw'r babi neu'r termau sydd orau gan y teulu.
- Yn gwrando'n astud ac yn ymateb i arwyddion llafar a di-eiriau.
- Yn rhannu gwybodaeth yn dameidiau hawdd eu deall, cyfleu negeseuon allweddol a darparu crynodebau ysgrifenedig neu weledol.
- Yn adolygu'r cofnod meddygol i ddeall hanes perthnasol ac osgoi gofyn i deuluoedd ailadrodd manylion trallodus.
- Yn cydlynu cyfathrebu ar draws sifftiau fel bod gwybodaeth yn gyson, ac i sicrhau nad yw teuluoedd yn gorfod ateb yr un cwestiynau.
- Yn anrhydeddu anghenion iaith Gymraeg, gan sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd yn newis iaith a fformat y teulu.
- Yn cynnig dewisiadau, nid cyfarwyddebau, ac yn parchu'r ffaith y gallai fod angen amser ar deuluoedd cyn gwneud penderfyniadau.

## Cyfathrebu Tryloyw

Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n agored, yn onest ac ar gyflymder hylaw. Mae staff yn osgoi tybiaethau, yn darparu esboniadau clir am yr hyn sy'n hysbys a'r hyn sy'n ansicr, ac yn ailedrych ar wybodaeth yn ôl yr angen. Mae cynlluniau, prosesau a'r camau nesaf yn cael eu hegluro'n gyson ar draws timau a sifftiau, gyda gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i gefnogi'r broses adalw.

### Cyfathrebir yn dryloyw pan fydd staff:

- Yn rhannu gwybodaeth yn onest, gan gynnwys yr hyn sy'n hysbys, yr hyn sy'n ansicr a beth allai'r camau nesaf ei olygu.
- Yn osgoi dyfalu ynghylch beth sydd wedi achosi marwolaeth y babi, ac yn defnyddio iaith niwtral a chefnogol.
- Yn esbonio prosesau, amserlenni a chyfrifoldebau'n glir, gan gynnwys pryd y gall oedi ddigwydd.
- Yn gwirio dealltwriaeth gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu cydnabyddedig a chynnig crynodebau ysgrifenedig.
- Yn darparu amserlenni realistig ar gyfer penderfyniadau ac yn ail gynnal trafodaethau os nad yw teuluoedd yn barod.
- Yn sicrhau bod negeseuon aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn gyson.

## Cyfathrebu Cynhwysol

Mae cyfathrebu cynhwysol yn sicrhau bod pob teulu'n gallu deall, cymryd rhan a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae staff yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi a lleihau rhwystrau fel bod cyfathrebu'n parhau i fod yn deg, yn hygyrch ac yn urddasol i bob teulu.

### Mae cyfathrebu'n gynhwysol pan fydd staff:

- Yn gofyn, yn hytrach na rhagdybio, am anghenion a dewisiadau cyfathrebu, gan gynnwys iaith, cyflymder, amgylchedd a fformat.
- Gyda chydsyniad, yn cofnodi anghenion cyfathrebu yn glir yn y cofnod meddygol, fel eu bod yn weladwy i bob tîm.
- Yn anrhydeddu anghenion iaith Gymraeg, gan drefnu cyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac ar bapur pan fo hynny'n well ganddynt.
- Yn addasu amgylchedd a chyflymder y cyfathrebu (ystafelloedd tawelach, llai o ymyriadau, mannau wedi'u goleuo'n dda, cyfleoedd ar gyfer egwyliau).
- Yn paratoi deunyddiau hygyrch ymlaen llaw a chysylltu â gwasanaethau arbenigol lle bo angen.
- Yn cydnabod y gall amgylcheddau mamolaeth ddwysáu trallod a mynd ati'n rhagweithiol i leihau amlygiad.

## Teuluoedd sydd angen Cyfieithydd

### Cefnogir cyfathrebu cynhwysol pan:

- Defnyddir cyfieithydd ar y pryd proffesiynol ar gyfer sgyrsiau sensitif, clinigol neu gymhleth.
- Rhoddir gwybodaeth mewn modd clir, cyflym ac uniongyrchol, gydag amser ar gyfer dehongli a deall.
- Tawelir meddwl teuluoedd bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol a bod ganddynt hawl i'w defnyddio.
- Dylid cynnig cyfieithydd cofrestredig sydd â chymwysterau priodol i deuluoedd bob amser. Argymhellir yn gryf na ddylid dibynnu ar deulu, ffrindiau na chyfieithwyr ar y pryd heb gymwysterau, ac ni fyddai hyn yn cael ei ystyried yn arfer da.

## Teuluoedd ag Anableddau Dysgu neu Niwroamrywiaeth

### Mae cyfathrebu'n deg pan:

- Rhoddir gwybodaeth mewn iaith syml, gan ddefnyddio camau byr ac osgoi jargon.
- Cynigir fformatau gweledol, ysgrifenedig neu amgen i gefnogi dealltwriaeth.
- Darperir amser ychwanegol, gyda chyfleoedd i oedi, ailedrych neu ddychwelyd at benderfyniadau pan fo angen.

## Teuluoedd Dall neu ag Amhariad ar eu Golwg

### Cefnogir cynhwysiant pan:

- Mae staff yn cyflwyno eu hunain yn glir ac yn esbonio'r amgylchedd.
- Mae gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch (e.e. print bras, sain, digidol).
- Gall teuluoedd gael disgrifiadau llafar neu gymorth darllen ar lafar ar gais.

## Teuluoedd Byddar neu sydd ag Amhariad ar eu Clyw

### Cefnogir cyfathrebu hygyrch pan:

- Darperir gwasanaeth dehongli iaith arwyddion neu gymorth cyfathrebu priodol.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal mewn amgylcheddau tawel sydd wedi'u goleuo'n dda, sy'n cefnogi darllen gwefusau neu weledodd.
- Mae gwybodaeth allweddol yn cael ei hatgyfnerthu mewn fformatau ysgrifenedig neu ddigidol.

# Cyfathrebu Tosturiol

Darperir gofal gydag empathi, tynerwch ac ymwybyddiaeth emosiynol. Mae staff yn cydnabod arwyddocâd y foment, yn dilysu teimladau, ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu tawel a chyson sy'n lleihau trallod. Mae preifatrwydd, urddas a pharch yn sail i bob rhyngweithiad, gan gydnabod dyfnder y golled a phwysigrwydd iaith, diwylliant, hunaniaeth ac amgylchiadau teuluol.

**Mae gofal yn cael ei gyfleu'n dosturiol pan fydd staff:**

- Yn cynnal presenoldeb tawel, cyson a di-frys.
- Yn dilysu emosiwn heb leihau neu gynnig sicrwydd cynamserol.
- Yn sicrhau preifatrwydd a lleihau ymyriadau y gellir eu hosgoi.
- Yn defnyddio iaith corff cynnes ac agored, ac yn cynnig cyffyrddiad dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn cael ei groesawu.
- Yn gwybod pryd mae angen lle ar deuluoedd, a phryd mae angen **cymorth a chwmnïaeth** arnynt.
- Yn cynnal tosturi yn ystod sgyrsiau ymarferol, gan gydnabod y gall trallod amrywio.

# Safonau'r Gymraeg

Ni ddylid trin Saesneg yn fwy ffafriol na'r Gymraeg: Rhaid i gymorth fod ar gael yn Gymraeg bob amser a dylai'r holl wybodaeth atgyfeirio, asesiadau y gellir eu cynnal, taflenni a deunyddiau cymorth fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser fel rhan o'r cynnig craidd i bobl mewn profedigaeth yng Nghymru, yn unol â **Safonau'r Gymraeg**.

# Y Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch

Mae'r safonau **Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau clir i gyrff y GIG yng Nghymru nodi, cofnodi, fflagio, rhannu a diwallu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pob claf, rhiant a gofalwr, gan gynnwys y rheini sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, yn ddall neu'n rhannol ddall, yn niwrowahanol, sydd â llythrennedd isel, neu nad Cymraeg na Saesneg yw eu dewis iaith.

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rhaid i'r holl wasanaethau sy'n darparu gofal o fewn y llwybr hwn gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

# Adborth

Wrth i deuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau, efallai y byddant yn dymuno rhoi sylwadau ar unrhyw agwedd ar eu gofal. Darperir gwybodaeth glir am sut a phryd y gellir rhannu adborth, yn ogystal â rhoi sicrwydd i deuluoedd y bydd rhywun yn gwrando arnynt a bod eu barn yn bwysig. Mae timau'n agored, yn ymatebol ac yn dryloyw, gan weld adborth fel cyfle i wella. Dangosir hyn pan:

- Mae staff yn deall ac yn dilyn y canllawiau **Gweithio i Wella**.
- Mae staff yn deall gwerth adborth drwy wrando'n astud a chreu lle diogel.
- Darperir gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i roi adborth ar unrhyw agwedd ar ofal.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod y gellir rhannu adborth ar wahanol gamau, gan gynnwys yn ystod apwyntiadau dilynol a thrwy eu cyswllt allweddol.
- Eglurir sut mae adborth yn cyfrannu at brosesau adolygu ac yn llywio trafodaethau dilynol a gwelliannau gwasanaeth.
- Nid oes cyfyngiad amser o ran pryd y gellir rhannu adborth.
- Mae trafodaethau adborth yn cael eu cofnodi a'u rhannu drwy sianeli llywodraethu priodol.
- Cofnodir adborth llafar lle y'i rhoddir.
- Cynigir cyfle i deuluoedd sicrhau eu bod yn aros yn ddienw a rhoi adborth yn eu dewis iaith, gyda gwasanaethau cyfieithu'n cael eu trefnu lle bo angen.
- Darperir gwybodaeth ysgrifenedig am sut i gysylltu â thîm pryderon neu gwynion yr ysbyty.

# Gofal Trawsffiniol

Gall gofal trawsffiniol ddigwydd pan fydd teuluoedd yn derbyn gwasanaethau y tu allan i ardal eu Bwrdd Iechyd lleol. Mae teuluoedd yn llywio gofal ar draws ffiniau sefydliadol, ac mae cyd-drefnu a rhannu gwybodaeth glir yn cael eu cynnal i gefnogi parhad. Dangosir gofal trawsffiniol diogel a chydlynol pan:

- Mae gwybodaeth glinigol berthnasol yn cael ei rhannu'n brydlon ac yn ddiogel rhwng Byrddau Iechyd.
- Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir ar draws sefydliadau.
- Mae cyswllt allweddol y teulu yn cyd-drefnu cyfathrebu ac yn cefnogi parhad.
- Mae crynodebau rhyddhau, dogfennau pontio a chynlluniau gofal perthnasol yn cael eu cwblhau a'u rhannu'n briodol.
- Mae prosesau ymchwilio, gan gynnwys gweithdrefnau post-mortem ac adolygu, yn cael eu hegluro'n glir pan fydd gofal yn rhychwantu gwahanol systemau'r Bwrdd Iechyd neu systemau cenedlaethol.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod sut y bydd apwyntiadau dilynol a chymorth parhaus yn cael eu trefnu ar draws ffiniau sefydliadol.

# Staff

## Safonau Proffesiynol, Atebolrwydd a Chwmpas Ymarfer

Mae'r holl staff sy'n ymwneud â gofal mewn profedigaeth ar ôl colli babi yn ystod beichiogrwydd neu farwolaeth babi yn atebol yn broffesiynol am y gofal maen nhw'n ei ddarparu. Rhaid darparu gofal mewn profedigaeth yn unol â rheoliadau statudol, codau ymddygiad proffesiynol a pholisïau sefydliadol, gan sicrhau ymarfer diogel, moesegol a chymwys bob amser. Mae gofal mewn profedigaeth o ansawdd uchel yn dibynnu ar staff yn cydnabod terfynau a chyfrifoldebau eu rôl broffesiynol.

- Rhaid i weithwyr proffesiynol cofrestredig ymarfer yn unol â gofynion eu corff llywodraethu.
- Mae gan bob gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb i weithredu'n agored ac yn ddidwyll yn unol â'r **Ddyletswydd Gonestrwydd**.
- Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud o fewn fframweithiau cyfreithiol a moesegol perthnasol.

Rhaid i'r holl staff weithio o fewn terfynau eu cymhwysedd, hyfforddiant a rôl broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd yn unig â thasgau clinigol neu gefnogol y maent wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u hawdurdodi'n briodol ar eu cyfer. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi pan fydd rheolwyr:

- Yn trefnu ôl-drafodaethau a darparu mannau myfyriol.
- Yn annog, cefnogi a darparu hyfforddiant i staff.
- Yn canfod bylchau mewn hyfforddiant o fewn y tîm a hwyluso cyfleoedd hyfforddi.
- Yn cadw llygad am arwyddion o straen neu anhawster mewn unigolion ac mewn timau.
- Yn hwyluso trafodaethau rhwng cydweithwyr a thimau.
- Yn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod sut i gysylltu a hunangyfeirio at y gwasanaeth llesiant gweithwyr lleol, **Canopi**, neu **Sands**.

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement